At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2018-2019.

Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwneud y canlynol i hybu teithiau llesol. - Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol. Mae 67 o Gynlluniau Teithio i'r Ysgol ar waith ar draws y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd. Mae 7 ysgol arall yn datblygu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol. Yn ystod blwyddyn ? ariannol 2018/19, caewyd 2 ysgol oedd â Chynllun Teithio i'r Ysgol a symudwyd y disgyblion i ysgolion eraill. - Yn darparu Lefel 1 a 2 o'r Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio mewn ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol. Mae 24 o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant Safon Genedlaethol a chymerodd 430 o blant ran yn y cynllun. - Gweithredir bysiau cerdded gan 19 o ysgolion ledled y fwrdeistref sirol. Cymerodd 6,200 o ddisgyblion ran mewn wythnos/mis cerdded i'r ysgol. - Hybwyd teithio llesol gan y Cynllun Gwobr Eco-Sgolion drwy gefnogi cymryd rhan mewn cludiant cynaliadwy, er enghraifft, mentrau cerdded/beicio/sgwter i'r ysgol a hyfforddiant beicio. Mae'r prosiect yn annog staff i gerdded/beicio i'r ysgol, yn ogystal â'r disgyblion. - Mae'r Cyngor yn cynnal a chadw cypyrddau clo a chysgodfeydd beiciau er mwyn

	i'r staff deithio i'r gwaith ar gerdded neu ar gefn beic. Mae cawodydd hefyd ar gael yn Nhŷ Penallta. - Hyrwyddodd y Cyngor Wythnos Genedlaethol y Beic i annog gweithwyr i deithio i'r gwaith ar gefn beic. Yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd sioe deithiol aberthu cyflog ar gyfer beicio i'r gwaith er mwyn hyrwyddo'r cynllun ymhlith y staff. - Prynwyd beic trydan er mwyn i'r staff ei ddefnyddio ar gyfer teithio i'r gwaith, ac yn ôl, a'i ddefnyddio ar gyfer teithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau. Bydd y beic yn caniatáu i'r staff roi cynnig arno cyn prynu, i'w hannog i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy ar gefn beic. - Mae'r beic trydan yn cynnwys cewyll, helmed, clo ac ati i ganiatáu i bobl ei ddefnyddio heb fod angen unrhyw beth arall.
Y camau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau	- Yn ystod 2018/19, cyflawnwyd gwaith gwella'r rhwydwaith yn achos llwybr teithio llesol INMC17. Roedd y prosiect yn cynnwys 2 ddarn o droedffordd ar hyd A472 rhwng Nelson ac Ystrad Mynach. Mae'r gwaith wedi creu 370 metr o droedffordd sy'n mesur 1.8 metr o led. Roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu troedffordd, cytundebau tir, adeiladwaith hwylustod, draenio a strwythurau.
Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol	- Blwyddyn Ariannol 2018/19 – - Ariannwyd y beic trydan fel rhan o bartneriaeth â Ludwigsburg, felly, dim cost i'r awdurdod. - Y gost alldro o ran cyflawni troedffordd newydd INMC17 ar hyd y llwybr yw £399,000.

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan drydydd parti.	- Cyswllt cerdded a beicio newydd, sy'n mesur 3 metr o led, sy'n cysylltu ffatri newydd IG Doors â'r Rhwydwaith Teithio Llesol Presennol cymeradwy cyf. ccbc5. Sicrhawyd y droedffordd newydd fel rhan o'r amod cynllunio gyda chost amcan o £45,000.
Hyd y llwybrau newydd: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	- 100 metr o isadeiledd cerdded a beicio cyd-ddefnyddio.
Hyd y llwybrau wedi'u gwella: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	- 0
Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell	- 0

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Mae'r awdurdod wedi paratoi a mabwysiadu Strategaeth Adfywio y Cyngor, sef "Sail i Lwyddiant", ac Uwchgynlluniau Caerffili ac Ystrad Mynach. Mae teithio llesol yn rhan sylfaenol o'r dogfennau hyn, gan hyrwyddo teithio llesol yn gyffredinol a nodi'r Llwybrau Teithio Llesol Presennol a'r cynigion ar gyfer llwybrau'r Rhwydwaith Integredig.

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a bydd ar gael hefyd fel copi caled o ofyn amdano, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Llofnod Prif Weithredwr:	
Enw Prif Weithredwr:	Christina Harrhy